

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD	1 Hydref 2026
TEITL	Cau Ffyrdd mewn Argyfwng
RHESWM DROS GRAFFU	Sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli a chydlynu cau ffyrdd mewn amgylchiadau brys ac argyfwng.
AWDUR	Ceri Hughes Thomas, Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Craig Ab Iago

1. Pam fod angen ei graffu?

Mae cau ffyrdd mewn amgylchiadau brys ac argyfwng yn destun pryder cyhoeddus ac mae angen egluro rolau, cyfrifoldebau a threfniadau cyfathrebu.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor wrth gydlynu, monitro a chyfathrebu gwaith brys ac argyfwng.

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyfrifoldebau'r ymgwymerwyr statudol a'r Cyngor, y gwahaniaeth rhwng gwaith brys ac argyfwng, trefniadau cau ffyrdd, cyfathrebu a gwersi ar gyfer y dyfodol.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1. CYFLWYNIAD

4.1.1 Pwrpas yr adroddiad yw rhoi cefndir ac eglurhad ynghylch y ffordd y mae gwaith stryd yn cael ei reoli a'i gydlynu yng Ngwynedd. Mae'r gweithgareddau hyn yn gweithredu o fewn fframwaith cyfreithiol cenedlaethol, yn bennaf Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004, ynghyd â chodau ymarfer a chanllawiau cenedlaethol perthnasol. Mae'r fframwaith hwn yn diffinio'r hawliau a'r cyfrifoldebau sydd gan ymgwymerwyr statudol a rôl y Cyngor wrth gydlynu a monitro gweithgareddau ar y rhwydwaith ffyrdd.

4.1.2 Er bod yr adroddiad yn cyfeirio at waith stryd yn gyffredinol, ei brif ffocws yw'r trefniadau sy'n ymwneud â chau ffyrdd a chyfyngiadau traffig mewn amgylchiadau brys neu argyfwng. Dyma'r sefyllfaoedd sydd fel arfer, oherwydd eu natur a'r diffyg rhybudd, yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol ar ddefnyddwyr y ffordd, cymunedau lleol a gwasanaethau cyhoeddus.

4.1.3 Mae gwaith brys ac argyfwng yn cyflwyno heriau unigryw gan fod angen gweithredu ar fyr rybudd ac nad yw union natur y broblem na chwmpas llawn y gwaith sydd ei angen bob amser yn glir gan ymgwymerwyr statudol (e.e. cwmnïau cyfleustodau) ar y dechrau. Mewn llawer o achosion, ni ellir cadarnhau lleoliad y diffyg na maint yr atgyweiriad sydd ei angen nes i'r gwaith tyllu ddechrau. Wrth i'r gwaith fynd ymlaen, gall gwybodaeth newydd ddod i'r amlwg a all olygu bod angen

addasu'r dull gweithio neu'r trefniadau traffig er mwyn cynnal diogelwch a chwblhau'r gwaith yn effeithiol.

- 4.1.4 O ganlyniad, gall trefniadau traffig, hyd y gwaith a llwybrau dargyfeirio newid wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Gall hyn olygu bod angen uwchraddio trefniadau rheoli traffig, newid trefniadau mynediad neu ymestyn cyfnod cau ffordd er mwyn cynnal diogelwch y gweithlu a defnyddwyr y ffordd.
- 4.1.5 Mae cau ffyrdd mewn amgylchiadau brys neu argyfwng yn aml yn peri pryder a rhwystredigaeth i drigolion, busnesau a defnyddwyr y ffordd yn gyffredinol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion mae'r trefniadau hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd, gwneud safle'n ddiogel neu adfer gwasanaeth hanfodol cyn gynted â phosibl.
- 4.1.6 Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r rôl sydd gan y Cyngor wrth gydlyn, monitro a herio trefniadau lle bo hynny'n briodol, ynghyd â'r cyfrifoldebau sydd gan ymgwymerwyr statudol megis cwmnïau dŵr, nwy, trydan a thelathrebu wrth gyflawni gwaith ar y briffordd gyhoeddus.
- 4.1.7 Nod yr adroddiad yw rhoi dealltwriaeth glir o'r heriau sy'n gysylltiedig â rheoli gwaith brys ac argyfwng, y cydbwysedd sydd angen ei daro rhwng diogelwch ac aflonyddwch, a'r camau a gymerir gan y Cyngor i leihau'r effaith ar gymunedau lleol a'r rhwydwaith ffyrdd cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

4.2 TROSOLWG O WAITH STRYD

- 4.2.1 Mae gwaith stryd yn cyfeirio at waith a gyflawnir ar, uwchben neu o dan y briffordd gyhoeddus gan ymgwymerwyr statudol a chyrff eraill sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal gwasanaethau hanfodol.
- 4.2.2 Gall y gwaith hwn gynnwys gosod, cynnal, atgyweirio neu adnewyddu seilwaith sy'n gysylltiedig â gwasanaethau megis trydan, nwy, dŵr, carthffosiaeth a thelathrebu.
- 4.2.3 Mae llawer o waith stryd yn cael ei gynllunio ymlaen llaw ac yn cael ei gydlyn gan wasanaeth gwaith stryd y Cyngor er mwyn lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr y ffordd a'r cymunedau lleol. Fodd bynnag, gall rhai gwaith godi'n annisgwyl o ganlyniad i fethiannau neu ddifrod i seilwaith, megis pibell ddŵr yn byrstio, toriad cyflenwad trydan, damweiniau, neu ddifrod i geblau a allai beri risg i ddiogelwch y cyhoedd.
- 4.2.4 Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bosib y bydd angen i'r ymgwymerwr weithredu ar frys er mwyn diogelu'r cyhoedd, atal niwed pellach i'r seilwaith neu adfer gwasanaeth hanfodol cyn gynted â phosibl.

4.3 TROSOLWG O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R YMGYMERWYR STATUDOL

- 4.3.1 Mae'n bwysig deall y gwahaniaeth rhwng rôl y Cyngor a rôl yr ymgwymerwyr statudol, fel cwmnïau dŵr, nwy, trydan a thelathrebu.
- 4.3.2 Mae gan yr ymgwymerwyr hyn hawliau cyfreithiol i osod, cynnal, atgyweirio ac adnewyddu eu cyfarpar yn y briffordd. Oherwydd yr hawliau hyn, nid yw'n bosibl i'r Cyngor atal y gwaith rhag gael ei gyflawni nac ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau dderbyn caniatâd gan y Cyngor cyn dechrau gwaith.

- 4.3.3 Mae hyn yn arbennig o berthnasol i waith brys neu argyfwng. Pan fydd diffyg neu broblem gyda gwasanaeth hanfodol, gall fod angen i'r ymgwymerwr ddechrau gwaith ar fyr rybudd er mwyn diogelu'r cyhoedd neu adfer y gwasanaeth cyn gynted â phosibl.
- 4.3.4 Mae'r ymgwymerwr yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn ddiogel ac am ddarparu trefniadau rheoli traffig addas yn ystod y gwaith. Maent hefyd yn gyfrifol am leihau'r effaith ar ddefnyddwyr y ffordd lle bo hynny'n bosibl. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o ymgwymerwyr yn gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau rheoli traffig arbenigol sydd â'r wybodaeth a'r cymwysterau perthnasol i asesu risgiau a dylunio trefniadau rheoli traffig sy'n addas ar gyfer y gwaith sy'n cael ei gynnal. Mae'r trefniadau hyn yn gallu amrywio o arwyddion dros dro a goleuadau traffig i gau ffordd yn llwyr, yn dibynnu ar natur a lleoliad y gwaith a'r risgiau cysylltiedig.
- 4.3.5 Er nad oes modd i'r Cyngor atal gwaith statudol rhag cael ei wneud, mae gennym ni rôl bwysig wrth gydlyn a monitro gweithgareddau ar y rhwydwaith ffyrdd sydd yn cynnwys rhannu gwybodaeth a cyfathrebu. Mae'r Cyngor yn gwirio bod yr ymgwymerwyr yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol, yn cynnal arolygiadau o safleoedd gwaith ac yn gallu cymryd camau pan nad yw'r safonau gofynnol yn cael eu bodloni.
- Fel rhan o'r broses gydlyn, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r ymgwymerwyr i gynllunio gwaith ymlaen llaw er mwyn lleihau'r effaith ar y rhwydwaith. Gall hyn gynnwys gofyn i waith rhaglunedig gael ei ail-drefnu er mwyn osgoi gwrthdaro â gwaith arall yn yr un ardal, lleihau'r effaith ar ddigwyddiadau lleol, neu fanteisio ar gyfnodau tawelach o'r flwyddyn pan fydd llif traffig yn is. Mewn rhai achosion, gall y Cyngor hefyd ofyn i'r ymgwymerwr ystyried amseroedd gwaith gwahanol e.e. gyda'r nosau neu drefniadau amgen er mwyn lleihau'r aflonyddwch i ddefnyddwyr y ffordd a'r gymuned.
- 4.3.6 Mae gan yr ymgwymerwyr hefyd ddyletswydd i gydweithio â'r Cyngor drwy ddarparu gwybodaeth am eu gwaith a chyflwyno'r hysbysiadau angenrheidiol cyn gynted â phosibl.
- 4.3.7 Yn syml, cyfrifoldeb yr ymgwymerwr yw cynllunio, rheoli a chyflawni'r gwaith yn ddiogel, tra bod rôl y Cyngor yn canolbwyntio ar gydlyn, monitro a sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r gofynion perthnasol ynghyd a chyfathrebu a diweddarau rhanddeiliaid ehangach.

4.4 GWYBODAETH BELLACH AM RÔL Y CYNGOR

- 4.4.1 Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod y Briffordd gyda'r rôl i gydlyn gwaith stryd a defnyddio'r pwerau sydd ar gael i leihau'r effaith ar ddefnyddwyr y ffordd, trigolion a busnesau cyn belled a sy'n rhesymol ymarferol.
- Mae'n bwysig nodi mai dim ond ar y rhwydwaith ffyrdd sirol a lleol y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod Priffyrdd. Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am y cefnffyrdd yng Ngwynedd, sef yr **A55, A5, A487, A470 ac A494**, sydd o dan gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'i asiant cefnffyrdd.
- 4.4.2 Fel rhan o'r rôl gydlyn, mae'r Cyngor yn trafod unrhyw gyfleon i leihau effaith y gwaith ar ein cymunedau gyda'r ymgwymerwyr. Mae hyn yn cynnwys ystyried a oes gwir angen cau ffordd yn llwyr neu sgôp defnyddio trefniadau rheoli traffig amgen.

- 4.4.3 Mae'r Cyngor yn herio'r angen am gau ffordd yn gyfan gwbl gan ofyn i'r ymgwymerwr adolygu'r cynlluniau er mwyn lleihau hyd y gwaith. Mae hyn yn cynnwys gofyn i gontractwyr ymestyn eu horiau gwaith, gweithio gyda mwy o adnoddau ar y safle, neu gynnal gwaith dros benwythnosau er mwyn lleihau'r cyfnod y mae'r cyhoedd yn cael ei effeithio, yn enwedig mewn ardaloedd sydd yn draffig sensitif.
- 4.4.4 Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd priodol rhwng lleihau aflonyddwch a diogelu gweithluoedd sy'n gweithio ar y ffordd. Cyfrifoldeb yr ymgwymerwr yw asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith a dylunio'r trefniadau rheoli traffig angenrheidiol i ddiogelu ei weithwyr, defnyddwyr y ffordd a'r cyhoedd. Ni ddylid peryglu diogelwch er mwyn lleihau anghyfleustra, ond disgwylir i'r ymgwymerwr gyfiawnhau'r trefniadau y mae'n eu cynnig a dangos eu bod yn gymesur â natur y gwaith.
- 4.4.5 Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw cwmipas llawn rhai o'r gweithiau bob amser yn hysbys nes bod y gwaith wedi dechrau. Yn aml, mae'n anodd cadarnhau union leoliad na maint diffyg mewn pibell, cebl neu gyfarpar tanddaearol nes i'r cwmni gychwyn tyllu. O ganlyniad, gall amgylchiadau newid wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Er enghraifft, gall gwaith a ragwelwyd yn wreiddiol ar ymyl y ffordd ymestyn yn nes at ganol y ffordd, gan olygu nad yw'r trefniadau rheoli traffig cychwynnol bellach yn addas. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, efallai y bydd angen uwchraddio'r trefniadau o oleuadau traffig dros dro i gau'r ffordd yn llwyr er mwyn cynnal safonau diogelwch priodol i'r gweithlu a defnyddwyr y ffordd.
- 4.4.6 Er y gall newidiadau o'r fath achosi rhwystredigaeth i'r cyhoedd, maent yn aml yn adlewyrchu'r wybodaeth newydd a ddaw i'r amlwg wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Yn yr achosion hyn, mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r ymgwymerwr i sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau ychwanegol yn gymesur â'r risgiau a bod hyd yr aflonyddwch yn cael ei gadw mor fyr â phosibl.
- 4.4.7 Er bod adnoddau'n gyfyngedig, gyda thri arolygydd gwaith stryd yn gyfrifol am Wynedd yn ei chyfanrwydd, caiff pob ymdrech ei gwneud i fonitro gwaith ar y rhwydwaith. Oherwydd maint y sir a nifer y safleoedd sy'n weithredol ar unrhyw adeg, nid yw'n bosibl bod yn bresennol ar bob safle drwy'r amser. Fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i waith sydd â'r effaith fwyaf ar y cyhoedd, yn enwedig gwaith brys sy'n arwain at gau prif ffyrdd neu sy'n achosi aflonyddwch sylweddol i'r rhwydwaith traffig.
- 4.4.8 Mae presenoldeb arolygwyr ar safleoedd o'r fath yn galluogi'r Cyngor i fonitro cynnydd y gwaith, herio trefniadau lle bo angen a sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar gael. Mae hyn hefyd yn bwysig er mwyn darparu diweddariadau cywir i'r cydlynwyr gwaith stryd yn y swyddfa, sy'n derbyn ymholiadau gan aelodau etholedig, cynghorau cymuned, gwasanaethau brys a'r cyhoedd ynghylch statws a chynnydd gwaith stryd ar draws y sir.
- 4.4.9 Er nad oes gan y Cyngor bŵer i atal gwaith statudol na gwaith brys sy'n cael ei gynnal yn unol â hawliau cyfreithiol yr ymgwymerwr, mae ganddo rôl bwysig wrth ddwyn her adeiladol, cydlynu gweithgareddau a cheisio sicrhau bod effaith y gwaith ar y rhwydwaith ffyrdd a chymunedau lleol yn cael ei lleihau gymaint â phosibl.

4.5 GWAITH ARGYFWNG A GWAITH BRYD

- 4.5.1 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng gwaith brys a gwaith argyfwng, gan fod y ddau'n cael eu trin yn wahanol o dan y ddeddfwriaeth gwaith stryd.
- 4.5.2 Gwaith argyfwng yw gwaith sy'n rhaid cael ei ddechrau ar unwaith oherwydd perygl difrifol i bobl neu eiddo, neu i atal colled sylweddol i wasanaeth hanfodol. Enghreifftiau fyddai prif bibell ddŵr wedi byrstio, gollyngiad nwy, cebl trydan peryglus, neu sefyllfa lle mae nifer sylweddol o gwsmeriaid heb wasanaeth hanfodol. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig pan fo pobl mewn categorïau bregus yn cael eu heffeithio, megis pobl oedrannus, unigolion â chyflyrau meddygol, neu gwsmeriaid sydd ar gofrestr gwasanaethau blaenoriaeth ac sy'n dibynnu ar gyflenwad parhaus o ddŵr, nwy neu drydan. Yn yr achosion hyn, mae'r angen i adfer y gwasanaeth yn gyflym yn ffactor allweddol wrth benderfynu bod y gwaith yn waith argyfwng.
- 4.5.3 Gwaith brys, ar y llaw arall, yw gwaith sy'n gofyn am sylw cyflym ond nad yw'n cwrdd â'r trothwy ar gyfer argyfwng uniongyrchol. Er enghraifft, gall canfod diffyg ar gyfarpar a allai arwain at fethiant gwasanaeth os na chaiff sylw prydlon fod yn waith brys. Fel arfer, bydd yr ymgwymerwr yn rhoi hysbysiad byr i'r Cyngor cyn dechrau'r gwaith, ond nid oes angen yr un ymateb ar unwaith ag sydd ei angen mewn sefyllfa argyfwng.
- 4.5.4 Yn ymarferol, gall y ddau fath o waith gael effaith sylweddol ar y rhwydwaith ffyrdd ac ar gymunedau lleol. Fodd bynnag, mae gwaith argyfwng yn aml yn rhoi llai o gyfle i gynllunio ymlaen llaw, trafod trefniadau traffig neu roi rhybudd i'r cyhoedd. O ganlyniad, gall fod angen gwneud penderfyniadau a gweithredu ar fyr rybudd iawn.
- 4.5.5 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r ymgwymerwyr yn y ddau achos i leihau'r effaith ar ddefnyddwyr y ffordd cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Fodd bynnag, pan fo sefyllfa argyfwng yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd neu barhad gwasanaeth hanfodol, bydd angen rhoi blaenoriaeth i ddatrys y broblem a sicrhau diogelwch cyn y gellir ystyried cyfleustra neu aflonyddwch i'r rhwydwaith.

4.6 GWAITH BRYD, GWAITH ARGYFWNG A CHAU FFYRDD

- 4.6.1 Mae gwaith sydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw yn rhoi cyfle i'r Cyngor a'r ymgwymerwr drafod y trefniadau ymlaen llaw, ystyried yr effaith ar y rhwydwaith ffyrdd a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd cyn i'r gwaith ddechrau.
- 4.6.2 Pan fo gwaith sydd wedi'i raglennu yn golygu cau ffordd, mae proses statudol ffurfiol yn cael ei ddilyn. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol megis y gwasanaethau brys, gweithredwyr cludiant cyhoeddus neu addysg, gwasanaethau casglu gwastraff, aelodau lleol, cynghorau tref a chymuned ac eraill y gallai'r gwaith effeithio arnynt. Mae'r broses hon yn rhoi cyfle i ystyried sylwadau a rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r cyhoedd.
- 4.6.3 Pan fydd angen cau ffordd mewn argyfwng, nid oes modd cynnal yr un broses ymgynghori ffurfiol ymlaen llaw ag sydd ar gael ar gyfer gwaith sydd wedi'i raglennu. Y flaenoriaeth yw sicrhau diogelwch y cyhoedd ac adfer y gwasanaeth cyn gynted â phosibl. Serch hynny, pan fydd y Cyngor yn cael gwybod am y sefyllfa, gwneir pob ymdrech i hysbysu rhanddeiliaid perthnasol cyn gynted â phosibl a darparu gwybodaeth am y sefyllfa, y llwybrau amgen a chynnydd y gwaith.

- 4.6.4 Yn ystod sefyllfaoedd o'r fath, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ymgymwrwr i fonitro cynnydd y gwaith, herio trefniadau lle bo hynny'n briodol a cheisio lleihau'r effaith ar gymunedau lleol. Fodd bynnag, yr ymgymwrwr sy'n gyfrifol am bennu'r dull gweithio, asesu'r risgiau a darparu'r trefniadau rheoli traffig angenrheidiol i ddiogelu ei weithwyr a defnyddwyr y ffordd.
- 4.6.5 Dyna pam y gall gwaith brys ac argyfwng fod yn arbennig o heriol i'r Cyngor, defnyddwyr y ffordd a chymunedau lleol. Er y gwneir pob ymdrech i roi gwybodaeth gyfredol a lleihau aflonyddwch, gall amgylchiadau newid yn gyflym wrth i'r gwaith ddatblygu a rhagor o wybodaeth ddod i'r amlwg. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng adfer gwasanaeth hanfodol neu ddiogelu'r cyhoedd cyn gynted â phosibl, a chadw effaith y gwaith ar y gymuned a'r rhwydwaith ffyrdd mor isel â phosibl.
- 4.6.6 Mae'n rhaid i unrhyw waith ar y stryd, gan gynnwys gwaith brys ac argyfwng, gydymffurfio a Cod Ymarfer 'Diogelwch a Gwaith Stryd a Gwaith Ffyrdd' a gofynion perthnasol Pennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig. Cyfrifoldeb yr ymgymwrwr a'i gontractwr rheoli traffig yw sicrhau bod trefniadau traffig a mesurau diogelwch yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Mae rôl y Cyngor yn cynnwys monitro ac arolygu safleoedd gwaith, herio trefniadau pan fo hynny'n briodol, a chymryd camau pan geir tystiolaeth nad yw'r safonau gofynnol yn cael eu bodloni.
- 4.6.7 Pan fo digwyddiad brys neu argyfwng yn digwydd, yr ymgymwrwr statudol sy'n gyfrifol am asesu'r sefyllfa, gwerthuso'r risgiau i'r cyhoedd a'r gweithlu, a phenderfynu ar y dull gweithio mwyaf priodol. Wrth wneud penderfyniad ynghylch cau ffordd, ystyrir natur y diffyg, lleoliad y gwaith, lled y ffordd, gwelededd, diogelwch, opsiynau rheoli traffig amgen a'r angen i adfer gwasanaeth hanfodol cyn gynted â phosibl.
- 4.6.8 Gall gwaith brys neu argyfwng godi mewn unrhyw leoliad ac ar unrhyw adeg, ac mewn rhai achosion gall hyn effeithio ar ffyrdd sy'n sensitif o safbwynt traffig neu gymunedau lle mae nifer gyfyngedig o lwybrau amgen ar gael. O ganlyniad, gall fod angen gweithredu trefniadau traffig sydd yn cael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr y ffordd, gan gynnwys llwybrau dargyfeirio hirach nag a fyddai fel arfer yn ddymunol.

Mewn amgylchiadau o'r fath, disgwylir i'r ymgymwrwr a'i gontractwyr roi ystyriaeth lawn i effaith y gwaith ar y gymuned, defnyddwyr y ffordd a gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod unrhyw drefniadau a gyflwynir yn gyntaf oll yn ddiogel i'r cyhoedd, defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu sy'n gweithio ar y safle.

Bydd y Cyngor, fel rhan o'i rôl gydlyn, yn trafod ac yn herio trefniadau lle bo hynny'n briodol er mwyn sicrhau bod yr effaith ar y gymuned a'r rhwydwaith ffyrdd yn cael ei lleihau cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

Mae profiadau diweddar wedi dangos yr heriau ymarferol sy'n gallu codi mewn sefyllfaoedd o'r fath. Er enghraifft, yn ystod digwyddiad brys ger Abermaw lle'r oedd angen adfer cyflenwad trydan i gartrefi cyn gynted â phosibl, bu angen cyflwyno trefniadau traffig ar rwydwaith oedd eisoes yn cael ei effeithio gan waith arall yn yr ardal. Wedi i'r Cyngor gael gwybod am y sefyllfa, mynychodd swyddogion profiadol y safle er mwyn monitro'r sefyllfa, trafod trefniadau gyda'r ymgymwrwr a cheisio sicrhau bod gwybodaeth gyfredol yn cael ei rhannu gyda rhanddeiliaid cyn gynted ag yr oedd

hynny'n ymarferol. Fel mewn llawer o sefyllfaoedd brys, datblygodd y sefyllfa wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg ac roedd hyn yn cyflwyno heriau o ran darparu diweddariadau amserol a chyson.

- 4.6.9 Lle bo'n ddiogel ac yn ymarferol, disgwylir cynnal mynediad i eiddo, busnesau a chyfleusterau cymunedol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gerddwyr, defnyddwyr anabl, pobl fregus a gwasanaethau brys.

4.7 CYFATHREBU A RHEOLI TRAFFIG

- 4.7.1 Pan fo angen cau ffordd neu gyflwyno cyfyngiadau traffig, mae'n bwysig bod y trefniadau mor glir, diogel ac effeithiol â phosibl.
- 4.7.2 Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod arwyddion yn cael eu gosod yn y lleoliadau cywir, eu bod yn hawdd eu deall, a bod llwybrau amgen, lle bo hynny'n bosibl, yn cael eu nodi'n glir i helpu defnyddwyr y ffordd i gynllunio eu teithiau.
- 4.7.3 Fodd bynnag, mae rheoli traffig yn ymwneud â llawer mwy na darparu arwyddion yn unig. Mae angen ystyried anghenion preswylwyr, busnesau lleol, cerddwyr, beicwyr, pobl fregus, gwasanaethau brys a gweithredwyr cludiant cyhoeddus a addysg. Lle bo hynny'n ddiogel ac yn ymarferol, dylid hefyd ystyried sut y gellir cynnal mynediad i eiddo, busnesau, ysgolion a chyfleusterau cymunedol.
- 4.7.4 Yr ymgymrwyr sy'n gyfrifol am ddarparu, cynnal ac addasu'r trefniadau rheoli traffig sy'n gysylltiedig a'r gweithiau.
- 4.7.5 Er nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am lunio'r trefniadau rheoli traffig, mae ganddo rôl bwysig wrth eu hadolygu a'u herio lle bo hynny'n briodol. Er enghraifft, gall y Cyngor ofyn i arwyddion gael eu hail-leoli, i wybodaeth gael ei gwneud yn gliriach, neu i ddisgrifiadau ar arwyddion a llwybrau dargyfeirio gael eu haddasu i weddu'n lleol. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig neu mewn cymunedau lle mae mynediad i wasanaethau ac eiddo yn dibynnu ar nifer cyfyngedig o lwybrau.
- 4.7.6 Gall llwybrau dargyfeirio ymddangos yn hir o bryd i'w gilydd. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid ystyried diogelwch a gallu'r ffordd i dderbyn traffig ychwanegol, ac fel arfer bydd traffig yn cael ei gyfeirio ar hyd ffyrdd sydd o safon debyg i'r ffordd sydd wedi cau. Er bod trigolion lleol yn aml yn gwybod am lwybrau byrrach, rhaid i'r llwybr dargyfeirio swyddogol fod yn addas ar gyfer pob math o ddefnyddiwr ffordd, gan gynnwys cerbydau mawr a thraffig sy'n anghyfarwydd â'r ardal.
- 4.7.7 Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r ymgymrwyr i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol yn cael ei rhannu â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys gwasanaethau brys, cwmnïau cludiant cyhoeddus, ysgolion, gwasanaethau casglu gwastraff, aelodau lleol a chynghorau tref a chymuned.
- 4.7.8 Pan fo'r trefniadau'n newid, mae'n bwysig bod yr arwyddion ar y safle a'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r cyhoedd yn cael eu diweddarau cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, gall hyn fod yn heriol yn ystod gwaith brys neu argyfwng, lle gall natur y gwaith newid o ddydd i ddydd, neu hyd yn oed o awr i awr.

- 4.7.9 Er enghraifft, ac fel y soniwyd yn flaenorol, gall gwaith ddechrau gyda threfniadau traffig cymharol syml, ond wrth i dyllu fynd rhagddo gall ddod yn amlwg bod y diffyg yn fwy cymhleth nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen newid y trefniadau traffig, diwygio llwybrau dargyfeirio neu ymestyn cyfnod cau'r ffordd. Gall hyn greu her wrth sicrhau bod yr holl randdeiliaid, yn cynnwys aelodau lleol a'r cyhoedd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf mor gyflym â phosibl.

Yn ffodus, mae technoleg a chyfryngau cyfathrebu modern yn rhoi cyfleoedd gwell nag erioed i rannu gwybodaeth yn gyflym. Mae'r Cyngor a'r ymgymerydd yn gallu defnyddio cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a sianeli cyfathrebu eraill i ddarparu diweddariadau rheolaidd am gynnydd y gwaith, unrhyw newidiadau i'r trefniadau traffig a'r amserlenni disgwylidig.

- 4.7.10 Am y rheswm hwn, mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr ymgymerydd, y Cyngor a rhanddeiliaid allweddol yn rhan hanfodol o reoli gwaith stryd. Er mai'r ymgymerydd sy'n gyfrifol am y trefniadau traffig, mae'r Cyngor yn defnyddio ei wybodaeth leol a'i rôl gydlyn i helpu sicrhau bod y trefniadau a'r wybodaeth sy'n cael eu darparu i'r cyhoedd mor glir, priodol a chymesur â phosibl. Nod hyn yw lleihau'r effaith ar gymunedau lleol tra'n cynnal safonau uchel o ddiogelwch i weithwyr a defnyddwyr y ffordd.

Fodd bynnag, mae hyn yn gallu bod yn heriol mewn achosion brys ac argyfwng lle mae'r sefyllfa'n datblygu'n gyflym. Wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg, gall amserlenni, trefniadau traffig neu ddyddiadau gorffen newid. Yn y gorffennol, mae hyn wedi arwain at sefyllfaoedd lle mae negeseuon gwahanol neu ddiweddariadau amrywiol wedi cael eu rhannu ar adegau gwahanol, gan achosi dryswch neu ansicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Mae'r Cyngor a'r ymgymerydd yn cydnabod yr her hon ac yn gweithio'n barhaus i wella trefniadau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gan fod hyn, a lliniaru aflonyddwch cyn belled a sydd yn ymarferol a rhesymol bosibl, yn nod sydd wedi ei rannu. Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r llinf gwybodaeth rhwng safleoedd gwaith a'r swyddfa gefn, defnyddio cyfryngau cymdeithasol a sianeli cyfathrebu eraill yn fwy effeithiol, a cheisio darparu negeseuon mwy cyson a chyfredol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Er na fydd yn bosibl bob amser osgoi newidiadau i wybodaeth mewn sefyllfaoedd sy'n datblygu'n gyflym, y nod yw sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn y wybodaeth fwyaf cywir sydd ar gael ar unrhyw adeg.

4.8 GWELLA PARHAUS

- 4.8.1 Mae gwahanol brofiadau dros y blynyddoedd wedi dangos bod gwaith brys ac argyfwng yn gallu rhoi pwysau sylweddol ar y trefniadau arferol ar gyfer rheoli traffig, cyfathrebu a chydlynu gweithgareddau ar y rhwydwaith ffyrdd.
- 4.8.2 Er bod llawer o'r heriau hyn yn anochel oherwydd natur y gwaith, mae pob digwyddiad yn cynnig cyfle i adolygu trefniadau a nodi meysydd lle gellir gwneud gwelliannau. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo digwyddiadau'n arwain at gau ffyrdd am gyfnod estynedig neu'n cael effaith sylweddol ar gymunedau lleol.
- 4.8.3 Mae'n bwysig cydnabod nad oes unrhyw ddigwyddiad brys neu argyfwng yn debygol o gael ei reoli'n berffaith. Mae penderfyniadau'n aml yn gorfod cael eu gwneud yn gyflym, gyda gwybodaeth anghyflawn ac o dan amgylchiadau sy'n gallu newid yn gyson wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n anochel y bydd heriau yn codi o bryd i'w gilydd o ran rheoli traffig, darparu gwybodaeth amserol neu ateb disgwyliadau pob rhan o'r gymuned.

- 4.8.4 Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod y Cyngor yn gweithredu o fewn adnoddau cyfyngedig, gyda thîm cymharol fach. Er gwaethaf hyn, gwneir pob ymdrech i fod yn bresennol ar y safleoedd sy'n cael yr effaith fwyaf ar y rhwydwaith, yn enwedig pan fo gwaith brys neu argyfwng yn arwain at gau prif ffyrdd neu darfu'n sylweddol ar gymunedau lleol.
- 4.8.5 Mae aelodau lleol yn aml yn chwarae rôl bwysig wrth dynnu sylw at effeithiau lleol, rhannu gwybodaeth gyda chymunedau ac adnabod materion ymarferol a allai beidio â bod yn amlwg i sefydliadau sy'n gweithredu ar draws ardal ehangach.
- 4.8.6 Mae'n rhaid cydnabod hefyd nad yw'n bosibl i'r swyddogion bod ym mhob man ar yr un pryd. Pe bai nifer o ddigwyddiadau brys neu argyfwng yn digwydd ar draws Gwynedd ar yr un adeg, byddai'n rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu'r safleoedd sy'n peri'r risg fwyaf i ddiogelwch y cyhoedd neu sy'n cael yr effaith fwyaf ar y rhwydwaith ffyrdd.
- 4.8.7 Mae profiadau amrywiol hefyd wedi amlygu pwysigrwydd cyfathrebu clir a chyson. Mewn digwyddiadau mawr sy'n datblygu'n gyflym, gall gwybodaeth newid wrth i fwy o fanylion ddod i'r amlwg. Weithiau gall hyn olygu bod negeseuon gwahanol yn cael eu rhannu ar adegau gwahanol gan wahanol asiantaethau neu randdeiliaid. Er bod hyn yn aml yn adlewyrchu natur esblygol y sefyllfa yn hytrach na chamgymeriad, mae'n gallu achosi dryswch a rhwystredigaeth i'r cyhoedd. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i gryfhau trefniadau cyfathrebu, gwella llif gwybodaeth a sicrhau bod negeseuon mor gyson a chyfredol â phosibl.
- 4.8.8 Er na fydd yn bosibl dileu pob aflonyddwch nac osgoi pob her sy'n gysylltiedig â gwaith brys ac argyfwng, y nod yw dysgu o bob digwyddiad a gwella'n barhaus. Trwy gydweithio'n agos ag ymgymerwyr statudol, gwasanaethau cyhoeddus, aelodau lleol a chymunedau, gall y Cyngor geisio sicrhau bod digwyddiadau yn y dyfodol yn cael eu rheoli mor effeithiol â phosibl, gan gydbwysu anghenion y gymuned â'r angen i ddiogelu'r cyhoedd ac adfer gwasanaethau hanfodol.
- 4.8.9 Mae amseriad digwyddiadau brys ac argyfwng yn gallu dylanwadu ar gyflymder yr ymateb a'r wybodaeth sydd ar gael. Pan fo digwyddiadau'n codi y tu allan i oriau gwaith arferol, dros benwythnosau neu yn ystod gwyliau cyhoeddus, gall gymryd mwy o amser i gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol. Serch hynny, gwneir pob ymdrech i ddarparu diweddariadau a chefnogaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

4.9 CASGLIAD

- 4.9.1 Mae gwaith stryd yn rhan hanfodol o gynnal a gwella'r gwasanaethau y mae trigolion, busnesau a sefydliadau cyhoeddus yn dibynnu arnynt bob dydd. Er bod y gwaith hwn yn angenrheidiol, mae'n anochel y bydd yn achosi rhywfaint o aflonyddwch o bryd i'w gilydd, yn enwedig pan fo gwaith brys neu argyfwng yn golygu bod angen cyflwyno cyfyngiadau traffig neu gau ffyrdd ar fyr rybudd.
- 4.9.2 Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu bod gan ymgymerwyr statudol hawliau penodol i gyflawni gwaith ar y briffordd gyhoeddus, ond bod ganddynt hefyd gyfrifoldeb am gynllunio a chyflawni'r gwaith yn ddiogel, darparu trefniadau rheoli traffig addas a chydweithredu â'r Cyngor a rhanddeiliaid perthnasol.
- 4.9.3 Er nad yw'r Cyngor yn gallu atal gwaith statudol rhag gael eu cyflawni, mae gennym rôl bwysig wrth gydlynw gweithgareddau, monitro safleoedd, herio trefniadau lle bo hynny'n briodol a cheisio lleihau'r effaith ar gymunedau lleol a defnyddwyr y ffordd.

- 4.9.4 Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad yw sefyllfaoedd brys nac argyfwng byth yn syml. Yn aml, mae penderfyniadau'n gorfod cael eu gwneud yn gyflym, gyda gwybodaeth anghyflawn ac o dan amgylchiadau sy'n gallu newid yn sylweddol wrth i'r gwaith ddatblygu. O ganlyniad, nid oes unrhyw ddigwyddiad o'r fath yn debygol o gael ei reoli'n berffaith, ac mae'n anochel y bydd heriau'n codi o bryd i'w gilydd o ran cyfathrebu, rheoli traffig neu ddisgwyliadau'r cyhoedd.
- 4.9.5 Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Cyngor yn parhau i wneud ei orau o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gydag ymgymeryddwyr statudol, gwasanaethau brys, darparwyr trafniadaeth gyhoeddus, aelodau lleol, cynghorau tref a chymuned a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mor effeithiol â phosibl a bod effaith gwaith stryd yn cael ei lleihau lle bo modd.
- 4.9.6 Mae'r profiadau sydd yn deillio o sefyllfaoedd brys ac argyfwng wedi darparu gwersi gwerthfawr a chyfle i adolygu trefniadau presennol. Trwy adeiladu ar y profiadau hynny, cryfhau trefniadau cyfathrebu a pharhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid, gallwn wella ymhellach y ffordd y mae digwyddiadau tebyg yn cael eu rheoli yn y dyfodol.
- 4.9.7 Yn y pen draw, y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng dau beth pwysig:
- diogelu'r cyhoedd a chynnal gwasanaethau hanfodol
 - lleihau'r effaith ar gymunedau lleol, busnesau a defnyddwyr y ffordd

Er na fydd y cydbwysedd hwn bob amser yn hawdd i'w gyflawni, mae'n parhau i fod yn ganolbwynt i waith y Cyngor a'i bartneriaid wrth reoli gwaith stryd ar draws Gwynedd. Er na fydd pob penderfyniad yn bodloni pawb bob amser, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r pwerau, y wybodaeth leol a'r adnoddau sydd ar gael iddo i sicrhau bod gwaith brys ac argyfwng yn cael ei reoli mor ddiogel ac effeithiol â phosibl.

5. Ymgynghori

Paratowyd yr adroddiad gan Wasanaeth Gwaith Stryd yr Adran Amgylchedd gan ystyried profiadau gweithredol diweddar a thrafodaethau parhaus gydag ymgymeryddwyr statudol a rhanddeiliaid perthnasol.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r trefniadau'n hyrwyddo cydweithio, atal problemau lle bo modd, a sicrhau bod anghenion cymunedau a defnyddwyr y ffordd yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

7. Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r adroddiad yn cydnabod yr angen i ystyried pobl fregus, mynediad at wasanaethau a chyfathrebu gwybodaeth yn ddwyieithog.

8. Camau Nesaf

Ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu a pharhau i gryfhau trefniadau cyfathrebu, cydlynu a monitro mewn perthynas â gwaith brys ac argyfwng.